

# PROTOCOL ARFER GORAU TPC 4A

## CYNYRCHIOLAETH BROFFESIYNOL

1. At ddibenion y protocol hwn, cynrychiolydd proffesiynol, a elwir hefyd yn “asiant” yw:
  - person sy'n cael ei dalu mewn unrhyw ffordd i gynrychioli parti mewn gwrandawriad; neu
  - person, er nad yw'n cael ei dalu, a all fod yn aelod o gorff neu gymdeithas broffesiynol ac sydd serch hynny yn cynrychioli buddiannau parti. Gallai rhywun o'r fath fod yn gyfreithiwr, syrfëwr neu arbenigwr cyfreithiol.
2. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn disgwyl i gynrychiolwyr proffesiynol fod yn gyfarwydd â'i arferion, rheolau a gweithdrefnau. Ar ben hynny, maent i ymddwyn yn unol â rheolau ac arferion eu sefydliad proffesiynol ac i drin aelodau a staff TPC gyda chwarteisi.
3. Mae TPC yn disgwyl i gynrychiolwyr proffesiynol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwydddeb y mae'n ei rhoi mewn perthynas â phenderfynu neu drin apêl. Ni fydd TPC yn goddef camymddwyn gan gynrychiolydd proffesiynol. Yn yr un modd, bydd yn gwrthwynebu methiant cynrychiolydd proffesiynol i gynnal a pharchu ei reolau a'i weithdrefnau. Mae TPC yn cadw'r hawl i achwyn am achosion o natur amhroffesiynol i gyflogwr/cleient cynrychiolydd ac, os oes angen, i'w sefydliad proffesiynol. Nid yw TPC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamau cyfreithiol neu ddisgyblu a allai ddigwydd o ganlyniad i gamymddwyn cafodd ei achwyn amdano.

### Cod Gwisg

4. Disgwylir i gynrychiolwyr proffesiynol wisgo mewn modd ffurfiol a phroffesiynol. Dylid osgoi gwisgo bathodynnew neu arwyddluniau sy'n arwydd o gysylltiad â phlaid wleidyddol neu glwb.